
CHWYTHU'R CHWIBAN - CANLLAWIAU



DYDDIAD
YR EGLWYS YNG NGHYMRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Cynnwys

Canllawiau Chwythu'r Chwiban (Diogelu).....	1
Pwrpas	1
Beth yw chwythu'r chwiban.....	1
I bwy mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?	1
Amddiffyn	1
Cyfrinachedd a bod yn anhysbys	2
Adrodd.....	2
Ymateb i Adroddiad	2
Proses Uwchgyfeirio.....	3
Llywodraethu	3

Chwythu'r Chwiban – Canllawiau (Diogelu)

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn disgwyl i'w holl ymddiriedolwyr a'i staff gynnal y lefel uchaf o uniondeb. Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl gael diwylliant sy'n galluogi i bryderon a honiadau am ddiogelu gael eu harchwilio ac sy'n annog ei holl bobl i adrodd am unrhyw gamwedd. Mae'r Eglwys yng Nghymru'n ystyried chwythu'r chwiban fel gweithred gadarnhaol sy'n rhan o'i gweithdrefnau diogelu er budd yr Eglwys.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn trin pob datgeliad diogelu yn ddifrifol, yn gyson ac yn deg a bydd yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw gamweddau a ganfyddir. Mae'r polisi hwn yn nodi sut dylai pobl wneud datgeliadau diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn dan ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban lle y bo hynny'n berthnasol.

Pwrpas

Darperir y canllawiau hyn yn benodol ar gyfer materion sy'n ymwneud â Diogelu, dyma eu diben, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny, :

- Annog pobl i ddweud rhywbeth os ydyn nhw'n gweld rhywbeth.
- Rhoi sicrwydd i bawb y byddant yn cael eu hamddiffyn os ydynt yn ddiffuant yn adrodd am unrhyw gamwedd.
- Gofyn i bobl leisio'u pryderon diogelu y tu mewn i'r Eglwys yng Nghymru i ddechrau yn hytrach na mynd â'r mater y tu allan i'r Eglwys.

Beth yw chwythu'r chwiban?

Chwythu'r chwiban yw rhoi gwybod am achosion tybiedig pan fo unrhyw un yn yr Eglwys yng Nghymru wedi camymddwyn, cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon, cam-drin pobl neu adnoddau, neu fetu â chymryd camau angenrheidiol. Rydych yn chwythwr chwiban os ydych chi'n rhoi gwybod am rai mathau o gamweddau. Mae'n rhaid i'r camwedd rydych chi'n ei ddatgelu fod er budd y cyhoedd, felly mae'n rhaid iddo effeithio ar eraill, er enghraifft gweithwyr eraill, aelodau'r gynulleidfa neu'r cyhoedd.

Mae'n rhaid i'r chwythwr chwiban gredu'n rhesymol bod y wybodaeth a ddatgelir, ac unrhyw honiad ynddo, yn ei hanfod yn wir.

Nid yw chwythu'r chwiban yn cynnwys materion fel adborth gan reolwyr, rhyngweithiadau cyffredinol yn y gweithle, cwynion nad ydynt yn gamymddygiad, ac ati.

I bwy mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn yr Eglwys yng Nghymru, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i ddeiliaid swyddi, gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr, os oes pryder am fater sy'n ymwneud â diogelu plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl.

Amddiffyn

Gall fod yn anodd i bobl leisio eu pryderon oherwydd eu teyrngarwch i'w cydweithwyr neu i'r eglwys. Hwyrach eu bod yn ofni aflonyddwch neu erledigaeth hefyd. Ond mae'r gyfraith yn amddiffyn chwythwyr chwiban rhag erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais yn sgil eu gweithred, cyhyd ag y bo'r mater a godwyd wedi ei godi ar sail pryder gwirioneddol. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi o ganlyniad i ddatgan pryderon difrifol penodol yn gyhoeddus. Mae'r polisi a'r canllawiau diogelu hyn yn estyn yr amddiffyniad hwn i gynnwys gwirfoddolwyr.

Nid oes raid i unigolyn sy'n chwythu'r chwiban brofi ei bryder na darparu tystiolaeth ohono. Mae'n rhaid iddo gredu'n rhesymol ei fod yn wir (hyd yn oed os profir yn ddiweddarach ei fod wedi camgymryd), a chredu ei fod yn rhesymol gwneud y datgeliad dan yr amgylchiadau. Ni ddylai'r datgeliad fod at ddibenion budd personol.

Cyfrinachedd a bod yn anhysbys

Mae cael bod yn anhysbys yn gallu bod yn elfen bwysig iawn yn y broses o chwythu'r chwiban, ac nid oes angen i'r hysbysydd ddweud pwy ydyw wrth gyflwyno ei adroddiad cychwynnol. Mae'r canllawiau hyn yn annog pobl i roi eu henw wrth honiad lle bo'n bosibl. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i ymchwilio i'r honiad a dyma'r ffordd orau o gael eich amddiffyn o dan y gyfraith. Mewn rhai achosion, ni all ymchwiliad barhau heb wybod pwy yw'r hysbysydd. Mae Swyddogion Diogelu'r Dalaith bob amser yn parchu cyfrinachedd unrhyw un sy'n adrodd am bryderon o ran diogelu a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i beidio â datgelu pwy sy'n chwythu'r chwiban oni bai bod y person hwnnw'n rhoi caniatâd i hynny ddigwydd.

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal cyfrinachedd, oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i dorri'r cyfrinachedd hwnnw. Ni all y Tîm Diogelu'r Dalaith warantu anhysbysrwydd bob amser gan y gallai fod terfynau ymarferol neu gyfreithiol lle na ellir ymdrin â phryder heb ddatgelu pwy yw'r hysbysydd, neu bydd eraill yn dyfalu pwy sydd wedi mynegi'r pryder.

Adrodd

Os oes gan unigolyn unrhyw bryderon am rywun o fewn yr eglwys sy'n rhan o weithgareddau neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n groes i unrhyw ran o'r Polisi a'r Canllawiau Diogelu, yn y lle cyntaf, dylai gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith. Gellir cysylltu wyneb yn wyneb, ar y ffôn, drwy ffurflen ddiogelu ar y we, cyflwyno e-bost neu anfon llythyr hyd yn oed.

Os yw'r unigolyn yn teimlo na all gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith, neu fod yr honiad yn ymwneud â Swyddog Diogelu'r Dalaith, dylid gofyn am gyngor gan y Cyfarwyddwr Diogelu.

Os yw'r pryder yn ymwneud â'r Cyfarwyddwr Diogelu dylid hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Gellir mynegi pryderon ar lafar i ddechrau ond dylai hyn gael ei ddilyn gan adroddiad ysgrifenedig yn rhoi hanes y pryder a chymaint o fanylion â phosibl yn cynnwys unrhyw dystiolaeth ategol. Po gynharaf y mynegir pryderon yr hawsaf yw hi i weithredu.

Os yw unigolyn yn dymuno i'r mater gael ei drin yn gyfrinachol, dylai ofyn am hyn wrth godi ei bryder am y tro cyntaf.

Ymateb i adroddiad

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn addo sicrhau'r perygl lleiaf posibl i'r unigolyn sy'n mynegi pryder didwyll, a bydd yn cefnogi unrhyw unigolyn sy'n gwneud hynny. Ni fydd yn goddef erledigaeth, bygythiadau na chanlyniadau negyddol i unrhyw un sy'n mynegi pryder yn ddidwyll a bydd yn cymryd camau i atal hyn.

Os yw unigolyn yn teimlo ar unrhyw adeg ei fod wedi cael ei erlid, ei aflonyddu neu ei fod yn dioddef niwed am wneud datgeliad, dylai hysbysu'r Swyddog Diogelu ei fod wedi codi'r datgeliad gyda'r tîm Gwasanaethau Pobl a/neu aelod ohono.

Tîm Diogelu'r Dalaith fydd yn ymdrin â'r adroddiad. Bydd y Cyfarwyddwr Diogelu'n cael ei hysbysu am yr holl adroddiadau a wneir gan y chwythwr chwiban fel y gellir dilyn y canllawiau hyn. Bydd ymholiadau cychwynnol yn cael eu gwneud i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol, ac os felly, ar ba ffurf y dylid ei gynnal.

Mae'n bosibl y bydd y chwythwr chwiban yn cael ei alw i roi tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblu. Os digwydd hyn, bydd yn cael ei gynghori am y weithdrefn ac unrhyw gymorth angenrheidiol posibl.

Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, bydd y chwythwr chwiban yn cael ei hysbysu am ganlyniad yr adroddiad a'r ymchwiliad.

Proses uwchgyfeirio

Os nad yw hysbysydd yn fodlon bod ei bryder wedi cael sylw priodol neu os yw'n anhapus â chanlyniad yr adroddiad, dylai ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a gofyn am adolygiad o'r ymateb i'r pryder.

Os yw hysbysydd yn teimlo na chafodd ei amddiffyn rhag unrhyw ddial o ganlyniad i chwythu'r chwiban, dylai gysylltu â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Pobl o fewn Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

Camddefnyddio'r polisi hwn

Ymdrinnir ag unrhyw gamddefnydd o'r polisi hwn dan bolisiau a gweithdrefnau perthnasol.

Gallai'r mathau o gamddefnyddio gynnwys y canlynol:

- Annog rhywun i beidio â gwneud datgeliad
- Peri anfantais i unigolyn am ei fod wedi codi pryder
- Torri cyfrinachedd gan gynnwys datgelu enw chwythwyr chwiban yn amhriodol
- Gwneud datgeliad ffug yn fwriadol
- Gwneud datgeliad yn gyhoeddus neu i bartïon allanol mewn modd afresymol

Llywodraethu

Y Cyfarwyddwr Diogelu sy'n gyfrifol am yr ymateb gofynnol i adroddiad yn unol â'r canllawiau hyn.

Bydd Panel Diogelu'r Dalaith yn craffu ar gamau gweithredu a gymerwyd gan Dîm Diogelu'r Dalaith mewn ymateb i adroddiadau.

Mae gan Bwyllgor Diogelu'r Eglwys yng Nghymru yr awdurdod i gytuno i fabwysiadu'r canllawiau chwythu'r chwiban hyn ac unrhyw ddiwygiadau iddynt. Bydd hefyd yn goruchwyllo effeithiolrwydd y canllawiau.

Mae'r Pwyllgor Diogelu'n adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.